# Polisi Presenoldeb 2024

Addysg Ardderchog i bawb drwy Gydweithio â'n Gilydd

Cyngor Abertawe
Swansea Council

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r arweiniad hwn wedi'i anelu at ysgolion a gynhelir ac at lywodraethwyr ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, rhieni/gofalwyr, a swyddogion yr awdurdod lleol. Mae'n egluro ymrwymiad Cyngor Abertawe i sicrhau lefelau uchel o ymgysylltu a phresenoldeb gan ddysgwyr, gan weithio tuag at addysg ardderchog i bawb, drwy wneud yn siŵr nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl. Bydd y dulliau a'r adnoddau hyn yn cael eu datblygu, a bwriedir adeiladu arnynt, fel eu bod yn cyd-fynd ag anghenion plant a rhieni/gofalwyr.

## Adolygu

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Bolisi Presenoldeb Cyngor Abertawe, mae croeso i chi gysylltu ag education@swansea.gov.uk

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Termau a diffiniadau ........................................ | 4 |
| Adran 1 | **Cyflwyniad** ........................................ | **5** |
| 1.1 | Gweledigaeth ........................................ | 5 |
| 1.2 | Cydweithio â'n gilydd ........................................ | 5/6 |
| 1.3 | Ymrwymiad i ymgysylltu addysgol mewn ysgolion ........................ | 6 |
| 1.4 | Absenoldebau ........................................ | 6/7 |
| 1.4.1 | Gwyliau yn ystod y tymor a theithiau tramor estynedig .................... | 7 |
| 1.5 | Ffactorau cyfrannol: y rhesymau posibl niferus dros absenoldeb................ | 7/8 |
| Adran 2 | **Ymrwymiad Cyngor Abertawe i wella presenoldeb** ........................ | **9** |
| 2.1 | Rolau a chyfrifoldebau: Mae presenoldeb yn fater i bawb .................... | 9/10 |
| 2.2 | Cyfrifoldebau ysgolion a chyrff llywodraethu ........................ | 10 |
| 2.3 | Cyfrifoldebau rhieni ........................................ | 10 |
| 2.4 | Cyfrifoldebau'r plentyn / person ifanc ........................ | 11 |
| 2.5 | Cyfrifoldebau unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion annibynnol ................ | 11 |
| 2.6 | Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol ........................................ | 11/12 |
| Adran 3 | **Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg** ........................................ | **13** |
| 3.1 | Rôl a diben y Gwasanaeth Lles Addysg ........................ | 13 |
| 3.2 | Egwyddorion y Gwasanaeth Lles Addysg ........................ | 13/14 |
| 3.3 | Y Gwasanaeth Lles Addysg ac ysgolion yn gweithio ar y cyd .................... | 14 |
| 3.4 | Hawliau'r unigolyn ........................................ | 14 |
| 3.5 | Cyfrinachedd ........................................ | 14 |
| 3.6 | Ymarfer gwrthwahaniaethol ........................................ | 14/15 |
| 3.7 | Rheoli gwybodaeth ........................................ | 15 |
| Adran 4 | **Diogelu ac amddiffyn plant** ........................................ | **16** |
| 4.1 | Cadw dysgwyr yn ddiogel ........................................ | 16 |
| Adran 5 | **Dyletswyddau cyfreithiol y Gwasanaeth Lles Addysg** .................... | **17** |
| 5.1 | Hysbysiadau cosb benodedig ........................................ | 17 |
| 5.2 | Gorchymyn Goruchwylio Addysg ........................................ | 17/18 |
| 5.3 | Gorchmynion Mynychu'r Ysgol ........................................ | 18 |
| 5.4 | Gorchmynion Rhianta ........................................ | 18 |
| Adran 6 | **Gwasanaethau eraill y Gwasanaeth Lles Addysg**........... | **19** |
| 6.1 | Plant sydd ar goll o'r system addysg ........................ | 19 |
| 6.2 | Trwyddedau cyflogi plant ........................................ | 19 |
| 6.3 | Archwiliadau presenoldeb ........................................ | 19 |
| 6.4 | Contractau rhianta ........................................ | 19 |
| 6.5 | Cyrchoedd triwantiaid ........................................ | 19 |
| Atodiad 1 | **Dogfennau ategol** ........................................ | **20** |
| Atodiad 2 | **Dogfennau wedi'u hymgorffori** ........................................ | **20** |
| Atodiad 3 | **Polisi Presenoldeb Ysgol – Gwybodaeth**........................................ | **21** |

## Termau a diffiniadau

Caiff y termau a'r diffiniadau canlynol eu defnyddio yn y ddogfen hon.

Mae ***ysgol***, oni nodir fel arall, yn cyfeirio at ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir, ysgolion gwirfoddol ac unedau cyfeirio disgyblion. Yn achos unedau cyfeirio disgyblion, mae 'llywodraethwyr' yn cyfeirio at aelodau'r pwyllgor rheoli ac mae 'pennaeth' yn cyfeirio at yr athro/athrawes sydd â gofal am yr uned.

Caiff y diffiniad o ***riant*** ei egluro yn adran 576 Deddf Addysg 1996 ac mae'n cynnwys:
• Unrhyw berson, er nad yw'n rhiant, sydd â chyfrifoldeb rhiant (fel y diffinnir yn Neddf Plant 1989) am blentyn neu berson ifanc, ac
• Unrhyw berson sydd â gofal am blentyn neu berson ifanc.
Mae bod â gofal am blentyn neu berson ifanc yn golygu bod unrhyw berson y mae'r plentyn yn byw gydag ef ac sy'n gofalu am y plentyn, waeth beth fo'i berthynas â'r plentyn hwnnw, yn cael ei ystyried yn rhiant.

Mae ***dysgwr***, oni wyddys fel arall, yn cyfeirio at blentyn, person ifanc, disgybl neu fyfyriwr sydd o oedran ysgol gorfodol.

***Oedran ysgol gorfodol.*** Dan adran 8 Deddf Addysg 1996, mae plant yn dod i oedran ysgol gorfodol ar 31 Rhagfyr, 31 Mawrth a 31 Awst (pa un bynnag sy'n dod gyntaf) ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed. Mae person ifanc yn gorffen bod o oedran ysgol gorfodol ar ddydd Gwener olaf mis Mehefin y flwyddyn ysgol y mae'n cael ei ben-blwydd yn 16 oed ynddi.

***Presenoldeb.*** Nid yw deddfwriaeth yn pennu unrhyw lefel isaf statudol ar gyfer presenoldeb. Yn draddodiadol, mae presenoldeb da'n dibynnu ar amgylchiadau, ond bernir fel rheol ei fod yn oddeutu 95%. At ddibenion casglu data a dibenion ystadegol, mae '***absenoldeb cyson***' wedi'i ddiffinio yng Nghymru fel absenoldeb o dros 20% o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgol. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall hyd yn oed cynnydd bach mewn absenoldeb uwchlaw'r lefel hon gael effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr. **At hynny, cydnabyddir po gynharaf y bydd yr ymyriad yn digwydd, y mwyaf tebygol yw hi y bydd canlyniad cadarnhaol yn cael ei gyflawni. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson gael ei ddiwygio i dros 10% o sesiynau, sef y diffiniad a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Lloegr.**

Mae ***Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd*** yn cyfeirio at aelod pwrpasol o staff sy'n gweithio gyda rhieni. Gall yr aelod o staff dan sylw gael ei alw hefyd yn swyddog cyswllt â theuluoedd, yn weithiwr bugeiliol cymunedol, yn weithiwr cymorth i deuluoedd, neu'n swyddog lles.

Mae ***addysg heblaw yn yr ysgol*** yn cyfeirio at addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn gallu mynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Yn ôl y gyfraith, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn.

***Addysg lawn-amser.*** Mae Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 2006 yn diffinio addysg lawn-amser fel:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 1: | 21 awr |
| Cyfnod Allweddol 2: | 23.5 awr |
| Cyfnod Allweddol 3 / 4 (gan gynnwys Blwyddyn 10 yn unig): | 24 awr |
| Cyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 11): | 25 awr |

# Adran 1 Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn darparu arweiniad ynghylch presenoldeb yn yr ysgol i ddysgwyr yn Abertawe. Wrth ddatblygu ei bolisi a'i ymarfer ar gyfer hybu presenoldeb yn yr ysgol, mae'r Cyngor yn sicrhau y bydd yr holl agweddau ar ymarfer yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae mynychu ysgol neu ddarpariaeth addysgol yn rheolaidd yn bwysig i ddyfodol pob plentyn. Mae presenoldeb da yn yr ysgol yn gysylltiedig â lefel uwch o gyflawniad a chyrhaeddiad addysgol a rhagolygon gwell o ran swyddi. Ni ddylid ac ni ellir bychanu pwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol. Mae'n hanfodol bod gan blant a phobl ifanc fynediad i ddarpariaeth addysgol a chyfleoedd dysgu priodol ac effeithiol. Mae angen i unrhyw rwystrau i ddysgu gael eu hadnabod yn gynnar a'u dileu, fel bod plant a phobl ifanc yn gallu ymwneud â'r ddarpariaeth addysgol y mae arnynt ei hangen i wireddu eu potensial.

### 1.1 Gweledigaeth

Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i ddarparu ***'addysg ardderchog i bawb drwy gydweithio â'n gilydd'***. Cydnabyddir yn eang bod mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ac yn dylanwadu'n gryf ar ddeilliannau i ddysgwyr, ar safonau ac ar allu dysgwyr i symud yn eu blaen. Rydym yn cydnabod bod presenoldeb yn hybu'r broses o ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac yn hybu'r ddealltwriaeth gysyniadol sy'n angenrheidiol er mwyn astudio ymhellach a llwyddo yn y gweithle. Mae gwaith dadansoddi'n dangos bod cysylltiad cryf rhwng canlyniadau arholiadau a chyfraddau presenoldeb. Mae presenoldeb da hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar les, felly mae sefydlu patrymau presenoldeb da o oedran cynnar yn hanfodol i ddatblygiad cymdeithasol. At hynny, mae prydlondeb yn hanfodol; mae'r ffaith bod dysgwyr yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn gallu amharu'n sylweddol ar y plentyn, yr athro/athrawes a'r plant eraill sydd yn y dosbarth.

Mae gwella ymddygiad a phresenoldeb yn rhan annatod o'n mentrau addysgol ehangach a eglurir yn ein Strategaeth Gynhwysiant. Nod y mentrau hynny yw sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn ymddieithrio o addysg, drwy sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas i'w hanghenion unigol.

Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod hefyd bod mynychu'r ysgol yn hybu datblygiad ehangach dysgwyr fel aelodau llawn a chyflawn o gymdeithas. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i sefydlu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion, sy'n seiliedig ar bedwar diben sy'n dangos ehangder y manteision academaidd a chymdeithasol a'r manteision o ran lles y mae dysgwyr yn eu hennill drwy fynychu'r ysgol. Oherwydd y cysylltiadau sydd wedi hen ennill eu plwyf rhwng mynychu'r ysgol a chyrhaeddiad, lles a dinasyddiaeth, mae gwella presenoldeb yn bolisi pwysig. Yn rhyngwladol, mae manteision addysg mor bwysig fel bod yr hawl i ystod gynhwysfawr o addysg a chyfleoedd dysgu yn un o saith nod craidd Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

### 1.2 Cydweithio â'n gilydd

Ni ellir ystyried presenoldeb ar ei ben ei hun. Mae achosion niferus absenoldeb, sy'n perthyn i'w gilydd ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ynghyd â phrofiadau amrywiol dysgwyr yn yr ysgol a gartref yn golygu bod angen strategaethau ysgol gyfan a threfniadau gweithio amlasiantaeth cryf y bwriedir iddynt gynorthwyo pob dysgwr.

Mae Cyfarwyddiaeth Addysg Abertawe yn cydweithio'n agos ag ysgolion a rhanddeiliaid, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau:

1. Bod gan blant a phobl ifanc hawl i gael mynediad i addysg sy'n briodol i'w hanghenion unigol

2. Y dylid cynnal cydbwysedd o ran hawliau a chyfrifoldebau rhwng plant a phobl ifanc, rhieni, ysgolion, gweithwyr proffesiynol eraill a'r gymuned ehangach
3. Bod asesu, adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i ddiogelu lles a buddiannau plant a phobl ifanc. Mae hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb ardderchog yn gyfrifoldeb ar yr ysgol gyfan a'r gymuned ehangach.

### 1.3 Ymrwymiad i ymgysylltu addysgol mewn ysgolion

Bydd ysgolion yn Abertawe yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb da drwy eu defnydd o gwricwlwm priodol sy'n addas i allu'r plentyn. Bydd ysgolion yn ceisio creu cymuned ddysgu sy'n elwa o ymddygiad cadarnhaol, presenoldeb rheolaidd, a lles disgyblion a staff y gymuned ddysgu honno.

Dylai'r dysgwyr i gyd a'u rhieni gael gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn anhapus yn yr ysgol, a dylent gael eu hannog i wneud hynny cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn atal problemau rhag gwaethygu. Ceir nifer o faterion a allai fod yn atal dysgwyr rhag mynychu lleoliad prif ffrwd, er enghraifft heriau'n ymwneud ag iechyd meddwl neu ymddygiad, ac mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd trefniadau amgen yn briodol, er enghraifft gwasanaeth tiwtora gartref gan yr awdurdod lleol neu gyfle i fynychu uned cyfeirio disgyblion. Yn gyffredinol, fodd bynnag, dylai unrhyw drefniadau o'r fath fod yn fesur byrdymor a dylid sicrhau mai dychwelyd i'w lleoliad addysg arferol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl yw'r nod hirdymor i'r rhan fwyaf o ddysgwyr bob amser.

I rai dysgwyr a rhieni, mae'r rhwystrau i ddysgu y maent yn eu hwynebu wedi gwaethygu ers y pandemig. Mewn rhai achosion, gwnaeth y cymorth dwys a ddarparwyd yn ystod y pandemig wella cydberthnasau rhwng ysgolion a rhieni ac arwain at bresenoldeb gwell. Mewn achosion eraill, mae'n bosibl nad yw arferion blaenorol a oedd yn sicrhau presenoldeb da wedi'u hailsefydlu a bod agweddau mwy di-hid at ddysgu ac at fynychu'r ysgol wedi cynyddu. Yn ystod y pandemig hefyd, amharwyd ar ymgyrchoedd i geisio hyrwyddo presenoldeb da.

Mae'n hysbys bod ffactorau megis tlodi, anghenion dysgu ychwanegol a rhai nodweddion gwarchodedig yn gysylltiedig â risg uwch bod dysgwyr yn absennol o'r ysgol, a bod y ffactorau hynny'n gallu dwysáu'r heriau y mae'r dysgwyr yn eu hwynebu'n barod. Felly, mae hybu presenoldeb da'n arbennig o bwysig yn yr achosion hynny. Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ac mae'n darparu gwybodaeth i'w holl randdeiliaid am ddiwygiadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol.

Mae mynychu'r ysgol yn hollbwysig hefyd o safbwynt diogelu, oherwydd mae'n sicrhau bod plant yn cael eu gweld a'u clywed, eu bod yn ddiogel ac nad oes neb yn camfanteisio arnynt. Mae cymryd camau gweithredol i fynd ar drywydd absenoldeb yn elfen hanfodol o ofal pob dysgwr ac o'r trefniadau a wneir i'w hamddiffyn. Dyma un o'r prif resymau pam y mae mor bwysig cofnodi a monitro presenoldeb yn gywir.

Mae rhai camau allweddol a all hybu presenoldeb da'n cynnwys y canlynol:

- Meithrin cydberthnasau cadarnhaol pan fydd plant yn dechrau'r ysgol.
- Darparu gwybodaeth ac arweiniad clir ynghylch presenoldeb a disgwyliadau'r ysgol.
- Galluogi rhieni i rannu eu barn am bresenoldeb ac i ymwneud â chydlunio'r polisi a'r dulliau gweithredu y mae'r ysgol yn eu mabwysiadu.

### 1.4 Absenoldebau

Mae'r awdurdod lleol yn derbyn na fydd efallai'n bosibl weithiau, ac y gallai hyd yn oed fod yn wrthgynhyrchiol, i blentyn fynychu'r ysgol, a hynny am nifer o resymau unigol. Gall absenoldeb o'r ysgol gael ei ddiffinio fel absenoldeb awdurdodedig neu absenoldeb anawdurdodedig.

Absenoldeb awdurdodedig yw naill ai achos lle mae'r ysgol wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw i'r disgybl fod yn absennol o'r ysgol neu achos lle mae esboniad a gynigir wedyn wedi'i dderbyn gan yr ysgol fel cyfiawnhad boddhaol dros fod yn absennol. Dim ond ysgolion all awdurdodi absenoldeb – ni all rhieni/gofalwyr wneud hynny – a chyn awdurdodi'r absenoldeb rhaid i ysgolion ystyried a yw'r rheswm dros fod yn absennol yn rhesymol. Dylai unrhyw absenoldeb na chaiff ei awdurdodi gan yr ysgol gael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

### 1.4.1 Gwyliau yn ystod y tymor a theithiau tramor estynedig

Rhaid i rieni wneud cais ymlaen llaw i drefnu taith dramor neu daith arall yn ystod y tymor. Dylai ceisiadau gael eu hystyried yn unigol, a gall ysgolion wahodd rhieni i drafod unrhyw gynigion o'r fath. Dim ond os yw ysgolion yn credu bod amgylchiadau arbennig yn cyfiawnhau absenoldeb ar gyfer taith neu wyliau teuluol y gallant gytuno i ganiatáu absenoldeb o'r fath.

Os bydd ysgol yn cytuno ar absenoldeb ac os bydd y disgybl yn mynd ar daith neu wyliau am 10 diwrnod neu lai, bydd yr absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig. Dim ond os yw ysgol yn credu bod yna amgylchiadau eithriadol y gall gytuno i ganiatáu absenoldeb sy'n para mwy na 10 diwrnod ysgol yn ystod blwyddyn ysgol. Os na fydd yr ysgol yn cytuno i ganiatáu absenoldeb ac os bydd y disgybl yn mynd ar y trip neu'r gwyliau, bydd yr absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig. Os bydd rhieni'n cadw plentyn i ffwrdd am gyfnod hirach na'r cyfnod a gytunwyd, bydd unrhyw amser ychwanegol hefyd yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig. Os bydd yr ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau rhoi cymeradwyaeth i'r disgybl fynd ar daith dramor am fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi'r gymeradwyaeth a chaiff yr absenoldeb ei gofnodi fel absenoldeb awdurdodedig, yn ôl disgresiwn y Pennaeth.

## 1.5 Ffactorau cyfrannol: y rhesymau posibl niferus dros absenoldeb

Yn aml, mae problemau presenoldeb yn symptom o ryw achos sylfaenol. Ceir llawer o resymau sylfaenol posibl dros bresenoldeb gwael, ar wahân i afiechyd corfforol. Yn aml, mae'r rhesymau eraill hynny'n gysylltiedig yn fras â phroblemau lles neu iechyd meddwl. Ac i rai dysgwyr, gall presenoldeb gwael ddigwydd o ganlyniad i nifer o ffactorau.

Dylai'r ysgol ystyried a oes pryderon neu ffactorau'n ymwneud â'r ysgol yn effeithio ar bresenoldeb dysgwr, er enghraifft:

1. profiad o fwlio neu wahaniaethu
2. anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn cael eu diwallu neu nad ydynt wedi'u hadnabod
3. gorbryder am waith ysgol neu arholiadau
4. osgoi'r ysgol am resymau emosiynol.

Mae'n hysbys bod rhai dysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol neu rai sydd wedi'u gwahardd o'r blaen, yn fwy tebygol o fod â lefelau gwaeth o bresenoldeb. Felly, mae'n hollbwysig bod y dysgwyr i gyd yn cael eu cynnwys a'u cynorthwyo gan ysgolion, beth bynnag fo'u hanghenion, eu profiadau, eu nodweddion personol neu'u hamgylchiadau gartref. Mae diwygiadau presennol ym maes anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau bod dysgwyr wrth wraidd y broses o adnabod anghenion ac adnabod y ddarpariaeth sy'n ofynnol, er mwyn annog cynllunio sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a ddylai arwain at ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr a helpu i adnabod anawsterau cyn eu bod yn gwaethygu.

At hynny, ceir nifer o ffactorau a allai olygu bod dysgwyr yn wynebu risg benodol o golli ysgol, ac mae canllawiau statudol ar waith i helpu i adnabod a chynorthwyo rhai o'r canlynol:

1. Plant sy'n derbyn gofal
2. Gofalwyr ifanc
3. Plant Sipsiwn, Teithwyr a Roma a phlant rhieni sy'n crwydro
4. Ceiswyr lloches, ffoaduriaid, mudwyr newydd a phlant gweithwyr mudol
5. Plant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid neu y mae eu rhieni yn y system gyfiawnder
6. Plant sydd â phroblemau meddygol neu broblemau iechyd meddwl hirdymor
7. Plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
8. Plant rhieni sy'n gwasanaethu a rhieni sydd yn y lluoedd arfog
9. Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o briodi dan orfod
10. Plant a phobl ifanc sy'n wynebu perygl y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt yn rhywiol, gan gynnwys plant sydd wedi'u masnachu
11. Plant a phobl ifanc rhieni digartref sy'n byw mewn llety dros dro, tai amlfeddiannaeth neu lety gwely a brecwast
12. Plant rhieni sy'n ffoi rhag trais domestig neu sy'n byw mewn llochesi i fenywod
13. Rhieni ifanc a menywod ifanc beichiog
14. Plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant neu sy'n blant mewn angen.

Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad yw problemau'n gwaethygu neu'n dechrau magu gwreiddiau. Mae Cyngor Abertawe yn ymwybodol bod presenoldeb gwael yn aml yn symptom o broblem sylfaenol a bod dulliau gweithredu llwyddiannus yn deillio o weithio gyda'r plentyn, y rhieni ac asiantaethau eraill i adnabod a datrys y problemau hyn. Felly, mae angen bod ysgolion yn gallu adnabod cyn gynted ag y bo modd yr arwyddion cynnar sy'n awgrymu y gallai fod yna broblem, ac mae angen eu bod yn gallu rhoi sylw i'r arwyddion cynnar hynny.

Mae Cyngor Abertawe yn darparu cyngor ac arweiniad er mwyn cynorthwyo ysgolion i gynnwys dysgwyr mwyaf agored i niwed y Cyngor. Mae'n sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau'r plentyn, gan ddefnyddio:

1. Dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, sy'n seiliedig ar hawliau'r plentyn
2. Ffocws ar les ac iechyd meddwl y dysgwr
3. Dull ysgol gyfan, system gyfan o weithredu
4. Meithrin cydberthnasau, diwylliant ac ethos cadarnhaol
5. Ymgysylltu â theuluoedd a chynnig cymorth amlasiantaeth
6. Atal, ymyrryd yn gynnar a mabwysiadu ffyrdd cynaliadwy o weithio.

# Adran 2 Ymrwymiad Cyngor Abertawe i wella presenoldeb

Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod bod mynychu'r ysgol yn brydlon ac yn rheolaidd yn hanfodol ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a dysgu effeithiol. Mae pob plentyn yn bwysig, felly rydym yn poeni mai presenoldeb gwael yn yr ysgol, i nifer fach o blant, sy'n uniongyrchol gyfrifol am y ffaith eu bod yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol a'u bod yn tangyflawni.

Rydym yn parchu ac yn cydnabod y gallai rhai rhieni ddewis addysgu eu plant gartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol, a bydd Cyngor Abertawe yn gweithio gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen.

O ran plant sydd ar gofrestr ysgol neu uned cyfeirio disgyblion, bydd Cyngor Abertawe yn defnyddio'r strategaethau allweddol isod i wella lefelau presenoldeb yn yr ysgol a gwella prydlondeb:

1. Sefydlu dull gwybodus wedi'i dargedu o gynorthwyo ysgolion os yw presenoldeb islaw'r lefelau a ddisgwylir. Dadansoddi data ynghylch presenoldeb a'i ddefnyddio yn rhagweithiol.
2. Ystyried y cynnydd mewn achosion o osgoi'r ysgol am resymau emosiynol, a sicrhau bod hynny'n llywio datblygiadau i hybu iechyd emosiynol a lles seicolegol.
3. Cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio codau presenoldeb yn effeithiol ac archwilio ffyrdd mwy effeithiol o fonitro presenoldeb dysgwyr unigol, yn enwedig yng nghyswllt achosion o osgoi'r ysgol am resymau emosiynol.
4. Ystyried presenoldeb yn holistaidd a sicrhau bod dulliau gweithredu effeithiol ar waith ar draws y Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor ehangach, er enghraifft Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant, Canolfannau Help Cynnar.
5. Sicrhau bod gan bob ysgol bolisi presenoldeb a gaiff ei adolygu'n rheolaidd ond sydd hefyd yn adlewyrchu dull holistaidd o ymdrin ag ymddygiad, presenoldeb a lles, gan sefydlu ethos lle mae pob dysgwr yn gallu llwyddo.
6. Sicrhau bod strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar yn gysylltiedig â meysydd eraill sy'n flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod plant yn awyddus i fynychu'r ysgol.
7. Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu cwricwlwm diddorol a chyffrous sy'n diwallu anghenion y dysgwyr i gyd.
8. Datblygu negeseuon ar draws yr awdurdod cyfan am bresenoldeb, drwy sianelau ar gyfryngau cymdeithasol.
9. Cynorthwyo ysgolion i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ynghylch strategaethau'n ymwneud â phresenoldeb.
10. Rhannu gwybodaeth am ddisgwyliadau â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff llywodraethu.

Effaith ddisgwyliedig:

1. Presenoldeb gwell ym mhob ysgol ac ym mhob uned cyfeirio disgyblion.
2. Deilliannau gwell i blant a phobl ifanc.
3. Cysondeb gwell ar draws lleoliadau ysgol.
4. Disgwyliadau clir ynghylch monitro presenoldeb.
5. Lleihau absenoldeb cyson.

### 2.1 Rolau a chyfrifoldebau: Mae presenoldeb yn fater i bawb

Mae sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn faes gwaith sy'n gofyn llawer ac sy'n dibynnu ar sefydlu a defnyddio cydberthnasau gwaith agos rhwng rhieni/gofalwyr, disgyblion, ysgolion, yr awdurdod lleol, y Gwasanaeth Lles Addysg a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, lleoliadau addysg a lleoliadau gofal iechyd.

Un elfen allweddol o unrhyw berthynas waith lwyddiannus yw dealltwriaeth glir o rôl a chyfrifoldebau pob person. Felly, mae'r adran hon yn ceisio egluro rolau a chyfrifoldebau'r sawl sy'n ymwneud ag ymateb i broblemau presenoldeb.

## 2.2 Cyfrifoldebau ysgolion a chyrff llywodraethu

Mae ysgolion yn gyfrifol am hybu presenoldeb eu disgyblion ac am ymateb i anawsterau a phroblemau a allai arwain at absenoldeb. Dylai pob ysgol yn Abertawe weithio'n galed i fabwysiadu dull cadarnhaol a rhagweithiol o ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â phresenoldeb, ac annog rhieni i chwarae rôl weithgar yn addysg eu plant, oherwydd gall hynny gyfrannu'n sylweddol at wella lefelau presenoldeb a phrydlondeb ac at leihau absenoldeb.

Mae gan leoliadau prif ffrwd ystod o gyfrifoldebau am bresenoldeb dysgwyr. Er enghraifft, mae'r gyfraith drwy Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn mynnu bod lleoliadau prif ffrwd yn cadw cofrestr gywir am bresenoldeb dysgwyr ac yn darparu data ynghylch absenoldeb disgyblion i'r awdurdod lleol dan Reoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011/1963 a Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011/1944.

At hynny, disgwylir i ysgolion yn Abertawe gyhoeddi neu ddarparu strategaeth ynghylch presenoldeb, y mae'n hawdd ei deall ac sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Disgwylir i'r strategaeth egluro pa egwyddorion sy'n sail i ddull yr ysgol o wella ymgysylltu gan ddysgwyr a gwella eu presenoldeb, ac egluro sut y mae'r ysgol yn bwriadu datblygu diwylliant cadarnhaol ynghylch presenoldeb.

Dylai ysgolion gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o'u polisi presenoldeb. Dylai hynny gynnwys egluro'r camau y byddant yn eu cymryd i roi cyfleoedd diddorol a pherthnasol i ddysgwyr o safbwynt addysgu a dysgu, a'r cymorth y byddant yn ei ddarparu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr o ran lles ac iechyd meddwl.

Dylai strategaethau ysgolion gael eu datblygu mewn partneriaeth â dysgwyr a rhieni, a dylent ddangos pwysigrwydd a manteision presenoldeb da'n ogystal â goblygiadau posibl absenoldeb. Dylent weithio gyda rhieni i adnabod unrhyw resymau posibl a allai effeithio ar bresenoldeb, a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth.

Mae angen i lywodraethwyr ysgolion sicrhau eu bod yn deall yn dda sefyllfa a blaenoriaethau'r ysgol o ran presenoldeb, a'i strategaethau ar gyfer gwella. Dylent gael digon o hyfforddiant gan eu hawdurdod lleol i'w galluogi i gyfrannu i strategaeth gyffredinol yr ysgol ar gyfer gwella presenoldeb, a dylent deimlo'n ddigon hyderus i herio os nad oes digon o welliant yn digwydd.

## 2.3 Cyfrifoldebau rhieni

Mae cyfrifoldeb statudol ar rieni i sicrhau bod eu plant sydd o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas sy'n briodol i'w hoedran, eu gallu a'u dawn, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddynt (gweler adran 7 Deddf Addysg 1996). Gall hynny fod drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd; drwy ddarpariaeth a gytunwyd o ran addysg, sydd ar wahân i ddarpariaeth mewn ysgol; neu drwy addysg ddewisol yn y cartref.

Gall rhieni wneud llawer i hybu presenoldeb rheolaidd a phrydlon eu plant. Mae rhestr lawn sy'n egluro sut y gall rhieni hybu presenoldeb a phrydlondeb eu plant ar gael ar dudalen 6 y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan.

### 2.4 Cyfrifoldebau'r plentyn / person ifanc

Rydym am i bob un o'n dysgwyr yn Abertawe ddod yn ddysgwyr gydol oes, annibynnol sydd ag etheg gadarnhaol o ran gwaith. Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg lawn-amser sy'n briodol i'w anghenion. Mae ysgolion am sicrhau'r gorau i bob un o'u disgyblion, a gall y plant a'r bobl ifanc eu hunain fod yn gyfrifol hefyd am bresenoldeb da yn yr ysgol.

Felly, dylai plant a phobl ifanc gael eu cynorthwyo i:

1. Mynychu'r ysgol pan fydd rhieni/gofalwyr yn cytuno eu bod yn ddigon iach i wneud hynny.
2. Dweud wrth eu hathro/athrawes neu unrhyw oedolion y maent yn ymddiried ynddynt pan fyddant yn ypsét neu'n anhapus.
3. Gweithio gyda'r ysgol a'u rhieni/gofalwyr i roi cynllun ar waith er mwyn gwella presenoldeb os oes raid.
4. Os ydynt yn ddisgyblion hŷn, bod yn brydlon i bob un o'r gwersi y mae'n ofynnol iddynt eu mynychu.
5. Derbyn pob help a gynigir iddynt.

### 2.5 Cyfrifoldebau unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion annibynnol

Yn ôl y gyfraith, mae unedau cyfeirio disgyblion yn fath o ysgol. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn berthnasol iddynt, sy'n gosod dyletswydd ar berchennog ysgol i gadw cofrestrau cywir ynghylch derbyn disgyblion ac ynghylch presenoldeb disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol (ar gofrestr dderbyn yr ysgol). Yr awdurdod lleol a sefydlodd yr ysgol ac sy'n ei chynnal yw'r "perchennog" y mae'r ddyletswydd yn disgyn arno yng nghyswllt unedau cyfeirio disgyblion, ond bydd yn rhaid iddo ddibynnu ar y wybodaeth a gesglir gan yr uned cyfeirio disgyblion at y diben hwnnw.

Mae ysgolion annibynnol hefyd yn rhwym wrth y gofynion hyn. Yn ogystal, dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i ysgol annibynnol sy'n darparu addysg i blentyn, a gaiff ei threfnu a'i ariannu gan awdurdod lleol yng Nghymru yn unol ag adran 19A Deddf Addysg 1996, ddarparu i rieni'r plentyn grynodeb o gofnod presenoldeb y plentyn, sy'n dangos nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig a nifer y presenoldebau posibl, ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

### 2.6 Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol

Ar ran yr awdurdod lleol, mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu cymorth i ysgolion, dysgwyr a rhieni sicrhau presenoldeb rheolaidd a mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud ag absenoldeb. Mae'r gwasanaeth yn trafod ag asiantaethau eraill ac yn gyswllt pwysig rhwng y cartref a'r ysgol, ac mae'n helpu rhieni ac athrawon i weithio mewn partneriaeth.

Drwy adran 436A Deddf Addysg 1996, mae awdurdod lleol Abertawe yn gwneud trefniadau i gadarnhau (i'r graddau y mae modd gwneud hynny) pwy yn ei ardal yw'r plant sydd o oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas heblaw yn yr ysgol. Mae dyletswydd ar y Cyngor i adnabod, i'r graddau y mae modd gwneud hynny, pa blant sydd efallai neu sy'n wir yn methu â chael addysg. Gall cysylltu'n syth â rhieni atal absenoldebau rhag troi'n absenoldebau hir, ac mae swyddogaeth ddiogelu'n perthyn i hynny hefyd.

Dan adran 437 Deddf Addysg 1996, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau bod plentyn y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano'n cael addysg addas naill ai drwy fynychu ysgol yn

rheolaidd neu fel arall. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Adran 4 y ddogfen ganllawiau 'Cynnwys a chynorthwyo disgyblion'.

# Adran 3 Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r adran hon yn ceisio egluro rôl y Gwasanaeth Lles Addysg yn Abertawe, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol gan bob rhanddeiliad.

### 3.1 Rôl a diben y Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r rhestr isod yn cynnwys y prif bethau y mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn eu cyflawni, ond ni ddylid ystyried ei bod yn rhestr gyflawn:

1. Adolygu datganiadau ynghylch cofrestrau presenoldeb dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 ac unrhyw arweiniad cysylltiedig.
2. Cydnabod gofynion y ddeddfwriaeth a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â threfniadau diogelu data, mynediad i ffeiliau personol a chofnodion disgyblion dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
3. Cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu dull ysgol gyfan o reoli presenoldeb ac o fynd i'r afael â phroblemau posibl o ran lles a diogelu, a allai fod yn effeithio ar absenoldeb a phrydlondeb gwael.
4. Cyfeirio achosion at asiantaethau eraill a gweithio gydag asiantaethau eraill pan fo hynny'n briodol er mwyn sicrhau dull holistaidd o ymdrin â phroblemau'n ymwneud â lles a phresenoldeb.
5. Casglu, dehongli a chyflwyno data ynghylch materion sy'n ymwneud â phresenoldeb, pan fo angen.
6. Bydd Swyddogion Lles Addysg yn darparu adroddiadau ynghylch presenoldeb ysgol gyfan, data ynghylch disgyblion unigol a data ynghylch grwpiau agored i niwed.
7. Darparu cyngor ac arweiniad i staff ysgolion ynghylch sut mae rheoli SIMS.
8. Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu ac adolygu eu polisïau presenoldeb, a chynorthwyo i weithredu strategaethau i wella presenoldeb.
9. Cysylltu â staff perthnasol er mwyn cynllunio ymyriad ar gyfer dysgwyr sy'n absennol yn gyson.
10. Sicrhau dull cydgysylltiedig a chyson o ymdrin â systemau ar gyfer atgyfeirio achosion, cofnodi achosion, adrodd yn eu cylch a'u cau.
11. Darparu cyngor am arfer da sydd wedi'i brofi, a rhannu arfer da'n briodol ar draws yr awdurdod lleol.

### 3.2 Egwyddorion y Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi ymrwymo i'r egwyddor sylfaenol bod strategaethau ymyrryd yn gynnar a gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig i sicrhau lles pob plentyn a pherson ifanc a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei amddiffyn. Bydd y Gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod hynny'n digwydd drwy'r canlynol:

1. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu cymorth proffesiynol o safon i ysgolion, plant, pobl ifanc a rhieni ac yn darparu cymorth priodol i leoliadau addysg, fel bod plant a phobl ifanc yn gallu elwa o'r cyfleoedd addysgol a ddarperir iddynt.
2. Mae'r Gwasanaeth yn hybu presenoldeb da mewn ysgolion ac yn hybu safonau uchel o ran lles disgyblion, a bydd yn cynorthwyo ysgolion i greu diwylliant sy'n annog presenoldeb.
3. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn archwilio'r rhesymau dros absenoldeb o'r ysgol, yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad, yn cyflwyno ymyriadau a gynlluniwyd, yn cynghori rhieni am wasanaethau cymorth arbenigol ac yn cyfeirio achosion at wasanaethau priodol pan fo angen.
4. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cydweithio ag asiantaethau eraill i gynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc, gan roi pwys penodol ar faterion sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant.

5. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cydnabod y gallai fod ar blant a phobl ifanc y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â theuluoedd sy'n agored i niwed a/neu sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, angen cymorth ychwanegol weithiau.

### 3.3 Y Gwasanaeth Lles Addysg ac ysgolion yn gweithio ar y cyd

Mae presenoldeb yn gyfrifoldeb cyffredinol i'r ysgol gyfan, a bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i wella presenoldeb. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cymryd camau ar ran yr awdurdod lleol yng nghyswllt rhieni nad ydynt yn sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu nad ydynt yn eu cofrestru mewn ysgol neu mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn llunio asesiadau perthnasol a chynlluniau gweithredu mewn partneriaeth â dysgwyr, rhieni, staff ysgol a phartïon perthnasol eraill ynghylch presenoldeb yn yr ysgol neu ynghylch darpariaeth addysgol amgen. Mae gan y Swyddog Lles Addysg ddwy rôl i'w chyflawni, fel darparwr gwasanaeth i'r ysgol ac fel canolwr rhwng y cartref a'r ysgol. Fel rheol, bydd gan ysgolion Swyddog Lles Addysg a enwir y mae dyletswydd arno/arni i ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'n anochel bod terfyn ar yr amser sydd gan y Swyddog Lles Addysg. Felly, dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt drefniant clir ynghylch sut a phryd y caiff achos ei gyfeirio at y Swyddog Lles Addysg, a bod yn siŵr bod y staff i gyd yn deall y gweithdrefnau. Mae angen i ddau beth ddigwydd cyn bod achos yn cael ei atgyfeirio:

1. Dylid bod wedi manteisio i'r eithaf ar weithdrefnau'r ysgol ei hun ar gyfer ymdrin ag absenoldeb.
2. Dylid defnyddio ffurflen atgyfeirio bob amser fel bod cofnod ysgrifenedig ar gael o bresenoldeb y disgybl, ei hwyrni, ei gryfderau a'i wendidau, ei berthynas â'i gyfoedion a'i athrawon, unrhyw gyswllt ag asiantaethau allanol yn y gorffennol ac ar hyn o bryd, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall o gofnodion yr ysgol.

### 3.4 Hawliau'r unigolyn

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn credu bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gyfle cyfartal, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y budd mwyaf o addysg, waeth beth fo'u hanghenion dysgu, eu tarddiad ethnig, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hanabledd, eu statws o ran ailbennu rhywedd, eu credoau crefyddol neu'u diffyg cred, eu hiaith neu'u cenedligrwydd. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cydnabod hawliau'r sawl sy'n ei ddefnyddio i gael cyngor a chymorth ganddo i gael gafael ar wasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Bydd y Gwasanaeth yn eiriol, os yw'n briodol, dros blant, pobl ifanc a theuluoedd pan fyddant yn ceisio cael gafael ar y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.

### 3.5 Cyfrinachedd

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn parchu cyfrinachedd ac yn hybu cyfranogiad mewn gwasanaethau, ac felly'n helpu i ddiogelu iechyd a lles plant. Fodd bynnag, gellir torri cyfrinachedd os hynny sydd orau i'r plentyn. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn meithrin perthynas waith â phlant, pobl ifanc a rhieni mewn modd agored a gonest, sy'n ei gwneud yn bosibl cofnodi'n briodol unrhyw rannu gwybodaeth sy'n digwydd.

### 3.6 Ymarfer gwrthwahaniaethol

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn rhoi sylw dyledus i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Abertawe. Ei nod yw sicrhau bod y Gwasanaeth yn darparu cymorth teg yn unol â'r angen, waeth beth fo hil, diwylliant, crefydd, rhywedd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cefndir cymdeithasol neu anghenion dysgu ychwanegol y sawl dan sylw. Bydd y Gwasanaeth yn hybu

cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei waith, a bydd yn mynd i'r afael â gwahaniaethu pryd bynnag y gall ddigwydd.

### 3.7 Rheoli gwybodaeth

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn sicrhau dull cydgysylltiedig a chyson o ymdrin â systemau ar gyfer atgyfeirio achosion, cofnodi achosion ac adrodd yn eu cylch. Bydd y Gwasanaeth yn cydnabod yr angen am wrthrychedd, cywirdeb a chyfrinachedd os yn briodol, a bydd yn cydnabod gofynion y ddeddfwriaeth a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â gwaith diogelu data, mynediad i ffeiliau personol a chofnodion disgyblion. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn casglu, yn dehongli ac yn cyflwyno data ynghylch materion sy'n ymwneud ag agweddau perthnasol ar waith y Gwasanaeth, a bydd yn ei ddefnyddio wedyn i gynllunio a rheoli gwaith y Gwasanaeth Lles Addysg.

# Adran 4 Diogelu ac amddiffyn plant

Mae dyletswydd statudol ar bob ysgol a lleoliad addysg i ddiogelu dysgwyr a hybu eu lles. Rhaid bod pob aelod o staff yn gwybod ac yn deall sut mae cysylltu â'r person diogelu dynodedig ar gyfer yr ysgol a sut mae mynegi pryderon wrtho/wrthi. Gallai absenoldeb o'r ysgol fod yn risg o ran diogelu, ac mae gan waith tracio a monitro presenoldeb rôl hollbwysig i'w chwarae o ran diogelu. Gall absenoldeb fod yn arwydd o broblemau posibl sy'n ymwneud â lles gartref.

### 4.1 Cadw dysgwyr yn ddiogel

Canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ynghylch trefniadau i ddiogelu plant yw [Cadw dysgwyr yn ddiogel]() 2022. O ran gwaith y Gwasanaeth Lles Addysg, mae'n datgan fel a ganlyn:

1. Dylai lleoliadau addysg ddefnyddio eu polisi presenoldeb a'u hymarfer i sicrhau eu bod yn cysylltu'n rheolaidd â'r rhieni os bydd plentyn yn absennol o'r ysgol heb awdurdod neu os bydd gan y plentyn batrymau absenoldeb. Gallai cofnod presenoldeb y plentyn yn yr ysgol fod yn arwydd o bryderon am ddiogelu ac yn gyfle i adnabod achos o gam-drin, megis camfanteisio ar blentyn, ac i ymdrin ag achos o'r fath.
2. Os bydd plentyn yn absennol heb hysbysiad, gallai hynny hefyd fod heb yn wybod i'w riant neu'i ofalwr a gallai fod yn arwydd cynnar bod y plentyn ar goll o'r cartref neu o ofal. Dylai'r lleoliad addysg sicrhau yr eir ar drywydd unrhyw absenoldeb yn gyflym er mwyn sicrhau bod y plentyn yn ddiogel ac nad yw ar goll o'r cartref neu o ofal.
3. Os bydd y lleoliad addysg yn nodi bod plentyn ar goll o'r cartref neu o ofal, dylai gyfeirio at y Canllaw Ymarfer ar gyfer Cymru Gyfan, sef 'Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal'.
4. Dylai ysgolion adolygu data ynghylch presenoldeb yn rheolaidd er mwyn adnabod plant sy'n wynebu risg ac ymateb iddynt. Dylai fod gan ysgolion brosesau ar waith i roi gwybod am absenoldeb ar y diwrnod cyntaf, a phrosesau ar gyfer penderfynu a oes angen gweld y plentyn i sicrhau ei fod yn iawn. Dylai'r systemau hynny sicrhau bod staff wrth gefn ar gael pan fydd staff allweddol sy'n ymdrin â phresenoldeb yn absennol.
5. Os yw plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol ac os bydd yna'n mynychu lleoliad megis addysg heblaw yn yr ysgol, dylai'r ysgol wreiddiol gymryd cyfrifoldeb am wirio (yn y ddau leoliad) bod y plentyn yn bresennol bob dydd.

Un o'r amgylchiadau penodol lle mae deddfwriaeth diogelu data'n caniatáu rhannu gwybodaeth bersonol sensitif heb ganiatâd y plentyn neu'r rhiant yw os oes angen diogelu plant ac os oes angen eu hamddiffyn nhw ac eraill rhag niwed. Mae pob Swyddog Lles Addysg yn Abertawe yn gallu cael mynediad i hyfforddiant er mwyn deall pryd y dylai gwybodaeth gael ei rhannu â rhanddeiliaid eraill a pha wybodaeth y caniateir ei datgelu.

# Adran 5 Dyletswyddau cyfreithiol y Gwasanaeth Lles Addysg

Gwneir pob ymdrech i ymgysylltu â’r plentyn a’r teulu cyn ystyried dirwyo neu erlyn. Caiff strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar eu ffafrio. Fodd bynnag, weithiau bydd yn rhaid i’r awdurdod lleol arfer ei hawliau dan adran 444 Deddf Addysg 1996.

## 5.1 Hysbysiadau cosb benodedig

Os na fydd disgybl sydd wedi’i gofrestru mewn ysgol yn mynychu’r ysgol honno’n rheolaidd, ac os na fydd ymdrechion y Swyddog Lles Addysg a’r ysgol yn llwyddo i sicrhau presenoldeb rheolaidd ar gyfer y disgybl dan sylw, bydd y Cyngor fel arfer yn ystyried rhoi hysbysiad cosb benodedig i’r rhiant.

Yn ôl adran 444 Deddf Addysg 1996, os bydd plentyn o oedran ysgol gorfodol sy’n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol yn methu â mynychu’r ysgol yn rheolaidd, bydd rhiant y plentyn yn euog o drosedd. Bydd cymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhieni’n cael ei ystyried yn rhan o ymyriad a gynllunnir i wella presenoldeb. Gall hynny gynnwys rhoi hysbysiadau cosb benodedig dan adran 444A y Ddeddf. Os caiff hysbysiadau cosb benodedig eu defnyddio, dylai awdurdodau lleol gymryd gofal mawr i sicrhau bod hysbysiadau’n cael eu rhoi’n gywir ac yn cael eu rhoi dim ond ar gyfer troseddau lle mae’r awdurdod lleol yn fodlon ac yn gallu erlyn os na fydd y rhiant yn talu’r gosb benodedig.

Oni bai bod yna amgylchiadau lliniarol sy’n hysbys, bydd y Cyngor yn ystyried cymryd camau cyfreithiol drwy gyflwyno gwŷs i’r rhieni ymddangos gerbron y Llys Ynadon dan adran 444 Deddf Addysg 1996. Wrth benderfynu a ddylid cymryd camau cyfreithiol neu beidio, rhaid bod y Swyddog Lles Addysg yn fodlon:

1. Bod digon o dystiolaeth ar gael i ddarparu gobaith realistig y bydd modd barnu bod y rhieni’n euog; rhaid i’r Swyddog ystyried beth allai achos yr amddiffyniad fod a sut y mae hynny’n debygol o effeithio ar achos yr erlyniad.
2. Bod erlyn yn rhywbeth sydd er lles y cyhoedd; mewn achosion difrifol, bydd rhieni fel arfer yn cael eu herlyn oni bai bod yna ffactorau’n ymwneud â lles y cyhoedd sy’n awgrymu na ddylid eu herlyn – ffactorau sy’n amlwg yn drech na’r ffactorau o blaid erlyn.
3. Bod unrhyw gamau y mae’r Swyddog yn eu cymryd yn cydymffurfio â’r Ddeddf Hawliau Dynol.

Os bydd y disgybl, ar ôl i gamau cyfreithiol gael eu cymryd, yn dal i fethu â mynychu’r ysgol yn rheolaidd, bydd y Swyddog Lles Addysg yn cymryd camau cyfreithiol pellach os bernir bod hynny’n briodol.

## 5.2 Gorchymyn Goruchwylio Addysg

Cyn dechrau erlyn dan adran 444 Deddf Addysg 1996, bydd Swyddog Lles Addysg yn ystyried a yw’n briodol gwneud cais am Orchymyn Goruchwylio Addysg dan adran 36 Deddf Plant 1989. Diben Gorchymyn Goruchwylio Addysg yw sicrhau bod plentyn nad yw’n cael addysg briodol yn cael ei roi dan oruchwyliaeth yr awdurdod lleol. Nod Gorchymyn o’r fath yw sicrhau bod y plentyn yn cael addysg lawn-amser a’i fod ef/hi a’r rhieni yn cael cymorth dwys, cyngor ac arweiniad gan Swyddog Goruchwylio y mae’n ofynnol iddo/iddi “gynghori, cynorthwyo a bod yn gyfaill”.

Dim ond pan fydd un neu ragor o’r canlynol yn berthnasol y gwneir cais am Orchymyn Goruchwylio Addysg:

1. Pan fydd pob ymdrech arall i wella presenoldeb y disgybl wedi methu a phan fernir nad yw’n briodol erlyn y rhieni.

2. Pan fydd yn ymddangos yn debygol y bydd y rhieni’n barod i gydweithredu â rhaglen waith strwythuredig a gaiff ei pharatoi gan y Swyddog Goruchwylio.
3. Pan fydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn gefnogol i Orchymyn Goruchwylio Addysg.
4. Pan fydd gwrandawiad yn Llys yr Ynadon wedi rhoi cyfarwyddyd i’r awdurdod lleol wneud cais am Orchymyn Goruchwylio Addysg.
5. Pan fydd y Swyddog Lles Addysg o’r farn y bydd y Gorchymyn yn cael effaith sylweddol ar absenoldeb y disgybl.

### 5.3 Gorchmynion Mynychu’r Ysgol

Bydd Swyddog Lles Addysg yn cyflwyno Gorchymyn Mynychu’r Ysgol (dan adrannau 437-439 Deddf Addysg 1996) i rieni plentyn o oedran ysgol gorfodol os yw’r rhieni wedi methu â dangos bod y plentyn yn cael addysg addas ac os yw’r awdurdod lleol yn credu y dylai’r plentyn fynychu’r ysgol.

Bydd y Gorchymyn Mynychu’r Ysgol yn nodi pa ysgol y dylai’r plentyn ei mynychu. Os bydd y rhieni’n methu â chydymffurfio â’r Gorchymyn Mynychu’r Ysgol, bydd y Swyddog Lles Addysg yn cychwyn camau cyfreithiol dan adran 443 Deddf Addysg 1996, oni bai bod y rhieni’n gallu profi bod y plentyn yn cael addysg addas.

Bydd unrhyw gamau cyfreithiol a gymerir gan Swyddogion Lles Addysg yn cael eu monitro a’u hadolygu.

### 5.4 Gorchmynion Rhianta

Pan fydd raid, bydd Swyddogion Lles Addysg yn trafod â’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac â staff gofal cymdeithasol pan fydd y llysoedd, yng nghyswllt achos o ddiffyg presenoldeb, yn cyflwyno neu’n argymell Gorchymyn Rhianta. Swyddog Lles Addysg fydd y swyddog cyfrifol ar gyfer gorchymyn o’r fath.

# Adran 6 Gwasanaethau eraill y Gwasanaeth Lles Addysg

Yn ogystal â chyflawni gwaith achos gyda disgyblion unigol, bydd Swyddogion Lles Addysg yn cynnig her a chymorth strategol i ysgolion drwy weithio gyda thimau rheoli ysgolion ar bolisïau a gweithdrefnau. Bydd Swyddogion Lles Addysg yn hybu gwelliannau i'r modd y mae ysgolion yn rheoli presenoldeb, drwy'r strategaethau a restrir isod.

### 6.1 Plant sydd ar goll o'r system addysg

Ceir llawer o resymau pam y bydd plant a phobl ifanc yn 'disgyn allan' o'r system addysg ac yn wynebu risg o 'fynd ar goll'. Mae'r rhain yn amrywio o fethu â dechrau mewn ysgol newydd neu mewn darpariaeth briodol o ran addysg, i fethu ag ailgofrestru mewn ysgol newydd pan fyddant yn symud i'r sir. Os ydych yn meddwl bod plentyn a/neu berson ifanc ar goll o'r system addysg (ym mha gapasiti bynnag), dylech hysbysu'r adran addysg drwy atgyfeirio'r achos.

### 6.2 Trwyddedau cyflogi plant

Mae'r prif ddarpariaethau sy'n llywodraethu cyflogi plant i'w gweld yn adran 18 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae'n bosibl y bydd is-ddeddfau a wnaed gan yr awdurdod lleol dan Ddeddf 1933 yn gosod cyfyngiadau pellach ar yr oriau a'r amodau gwaith ac ar natur y gyflogaeth a ganiateir. Er bod yr is-ddeddfau hyn yn gwahaniaethu o'r naill awdurdod i'r llall, rhaid bod pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r egwyddor gyffredinol bod lles y plentyn o'r pwys mwyaf. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Plant mewn Cyflogaeth ac Adloniant, ac ar dudalen 62 y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan.

### 6.3 Archwiliadau presenoldeb

Mae enghreifftiau o restrau gwirio a phecynnau archwilio at ddiben hunanwerthuso, yng nghyswllt polisïau presenoldeb, i'w gweld yma:

Tudalen 56 y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan

Atodiad 4 Estyn: Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

### 6.4 Contractau rhianta

Os bydd plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n ddisgybl cofrestredig yn methu â mynychu ysgol yn rheolaidd, y ffaith bod y drosedd honno'n cael ei chyflawni sy'n gallu sbarduno camau i ddefnyddio Contract Rhianta. Mae'r prawf sy'n ofynnol i ddangos bod y drosedd wedi'i chyflawni yr un fath â'r prawf a fyddai'n ofynnol i erlyn rhywun oherwydd y drosedd atebolrwydd caeth dan adran 444(1) Deddf Addysg 1996.

### 6.5 Cyrchoedd triwantiaid

Mae Swyddogion Lles Addysg yn cydweithio'n agos â'r heddlu i sicrhau bod Cyrchoedd Triwantiaid yn cael eu cynnal pan fo raid, yn unol â'r protocol a gytunwyd rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol. Bydd Swyddogion Lles Addysg yn trafod Cyrchoedd Triwantiaid ag ysgolion lleol fel y bo angen.